Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

Mai, 2017

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Arholiad Mewnol Haf 2017 - Blynyddoedd 7, 8 a 9

Cynhelir arholiadau mewnol ysgrifenedig mewn pynciau addas yn ystod yr wythnos yn dechrau **12fed o Fehefin 2017**. Mae'r rhain wedi eu hanelu at fesur cyrhaeddiad a chynnydd mewn agweddau o'r pynciau dan sylw. Bydd manylion penodol ynghylch amseriad y gwahanol arholiadau yn cael eu ryddhau ar ein gwefan a'u danfon atoch yn electronig maes o law.

Bydd disgyblion Blwyddyn 9 yn sefyll arholiad ym mhob un o'r pynciau craidd, Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth. Yn ogystal, byddant yn cwblhau papurau yn y pynciau opsiwn maent eisoes wedi eu dewis ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Fel â'r Profion Cenedlaethol diweddar, gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad wrth sicrhau presenoldeb llawn eich mab/merch yn ystod yr wythnos uchod gan gofio dod ag offer megis beiro ddu neu las, pensil, dilëydd, pren mesur a chyfrifiannell. Rhoddir pob cymorth posib i'r disgyblion gan yr athrawon yn eu paratoadau ar gyfer yr arholiadau. Er mwyn i'ch plentyn adolygu yn effeithiol, hoffwn eich hysbysu am y deunyddiau, "Llyfryn Adolygu ar gyfer Arholiadau – Sut i gefnogi eich plentyn" sydd ar gael trwy ein gwefan, www.gartholwg.cymru o dan "Rhieni - Cysylltiadau Defnyddiol neu drwy'r cysylltiad canlynol:

http://gartholwg.cymru/cym/cysylltiadaudefnyddiol

Disgwyliwn i ddysgwyr wneud pob ymdrech wrth sefyll yr arholiadau, fel bod y canlyniadau yn adlewyrchiad cywir o allu a chyrhaeddiad. Fe ystyrir y marciau a graddau yn ogystal a ffynonellau gwybodaeth eraill yn y broses o ffurfio grwpiau dysgu ar gyfer y blwyddyn academaidd nesaf. Gofynnwn i'r disgyblion ddod â deunyddiau adolygu i'w helpu yn y cyfnodau cyn arholiad.

Dymunwn bob llwyddiant i'r disgyblion yn ystod yr wythnosau nesaf.

Yn gywir,

G.W. Lewis

Mr Geraint Lewis,
Dirprwy Brifathro

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Prifathro / Headteacher
Mr. Trystan Edwards BSc., C.P.C.P

Campws Cymuned Gartholwg, Y Brif Ffordd / Main Road,
Pentre'r Eglwys, Pontypridd, CF38 1DX

☎ **01443 219580** 🖷 **01443 219596**
gweinyddol@gartholwg.cymru
www.gartholwg.cymru

May, 2017

Dear Parent / Guardian,

Internal Examinations Summer 2017 – Years 7, 8 and 9

Internal examinations will take place in specified subjects during the week beginning **June 12th, 2017**. These assessments are aimed at measuring achievement and progress in particular areas of study in these subjects. Specific details of the timing of the various examinations will be shared via our website and sent to you electronically in due course.

Year 9 pupils will sit papers in all four core subjects: Welsh, English, Mathematics and Science. They will also complete papers in the option subjects chosen for the next academic year.

As per the recent National Tests, we kindly request your assistance in ensuring that your child is present on the above dates, remembering to bring a black or blue biro, pencil, eraser, ruler and a calculator. Students will be given every assistance by their teachers in their preparation for the examinations. In order for your child to revise effectively, we would like to make you aware of the "Revising for Examinations – How to support your child", booklet that is available on our website at www.gartholwg.cymru under "Parents – Useful Links" or by clicking the following link:

http://gartholwg.cymru/eng/usefullinks

Our expectation is that all learners make every effort during the tests to ensure that the results are an accurate reflection of ability and attainment. The marks and grades will be considered alongside other sources of information in the process of forming the teaching groups for the next academic year. We ask that pupils bring revision materials to aid their preparations in the periods preceding the examinations.

We wish our students every success over the coming weeks.

Yours faithfully,

G.W. Lewis

Mr Geraint Lewis
Deputy Headteacher